AG35. S. 183

# CWYN COLL


. . AM . .

# David Thomas (Dewi Hefin.)

Ganwyd ef yng Nghnap Sych, Llan Wenog, Mawrth 4ydd, 1828. Croesodd ei enaid am "loewach nen" o'r Glas Lwyn, Cribyn, Mawrth 9fed, 1909. Claddwyd yn Nghribyn, Mawrth 13.

DEWI HEFIN wedi marw!
Wedi teithio'n hir!
Rhoes ei oes i ganu'n loew,—
Beth fwy byw a phur?

Lenor, Athro, ac Awenydd,—
Weithiwr hael di wad;
Hawlia gofeb ddeil yn newydd,—
Gorsedd calon gwlad.



DEWI HEFIN.

Gwallsain sydd ym mhryddest
Awen
Ceredigion hardd;
Serch at hon oedd hedd ei elfen—
Batriarchaidd fardd!

Tyfodd o dan wawl athrylith
Daniel Ddu a'i gân;
Yfodd yntau hud y fendith,—
Cadwodd hi yn lân.

Daliodd ganwyll Addysg Cymru
Yn y cyfnos prudd;
Rhoes ei ore er ei chodi
At y Wawr a'r Dydd.

Hwyrnos bywyd, mewn anwyldeb
Dreuliodd gyda gwên;
Gwybu wireb Anfarwoldeb,—
"Gwrthod myn'd yn hen."

Wedi pedwar ugain mlynedd,—
Hir oes brydferth, bur!
Aeth yn *ieuanc* i dangnefedd
Gwlad y bryddest *wir*.

Tawel huned! melus cofio
Byw ei salmau aur;
Herio cur beddrodau angho'
Wna ei "Flodau"* claer.

*Aberdar.* E. B. MORRIS.

Hên lenor hael ei anian,—y difalch
Dewi Hefin ddiddan;
Yn ei gell nyddai ei gân
Yngwyneb angau'i hunan.—*Ab Hefin.*

---

* Ei lyfr barddonol—"Blodau Hefin."

Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

X20531S045